# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC (3) 05-09)

**Dyddiad:** 24 Chwefror 2009
**Amser :** 8.15am
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd

**CYNNWYS**

---

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 24 Chwefror 2009. Roedd yr aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Mike German AC, Joyce watson AC ac Alun Davies AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Mark Isherwood AC. Nid oedd unrhyw un yn dirprwyo ar ei ran. Roedd Dr Dai Lloyd, cyn-Gadeirydd y Pwyllgor ac Anna Daniel, cyn-Glerc y Pwyllgor yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar yr agenda: Ehangu'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth: ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig – ystyried y materion allweddol.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

**Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.**

**Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)**

**SLC247 - Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Asesiadau, Awdurdodiadau Safonol ac Anghydfodau ynghylch Preswyliaeth) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'u gwnaed ar ... 2009. Fe'u gosodwyd ar … 2009. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2009

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC245 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) (Diwygio) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 9 Chwefror 2009. Fe'u gosodwyd ar 11 Chwefror 2009. Yn dod i rym ar 7 Mawrth 2009

**SLC246 – Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) (Diwygio) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 10 Chwefror 2009. Fe'u gosodwyd ar 11 Chwefror 2009. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2009.

**SLC248 - Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Penodi Cynrychiolydd Person Perthnasol) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 11 Chwefror 2009. Fe'u gosodwyd ar 13 Chwefror 2009. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2009

**SLC250 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 17 Chwefror 2009. Fe'u gosodwyd ar 18 Chwefror 2009. Yn dod i rym ar 11 Mawrth 2009

**Unrhyw fater arall**

**Ystyried y Mesur Atodiadau Ardrethi Busnes (Mesur Seneddol)**

Ystyriodd y Pwyllgor pa mor briodol yw'r darpariaethau sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru yn y Mesur Atodiadau Ardrethi Busnes, gan roi sylw arbennig i'r materion sy'n gysylltiedig â throsglwyddo pwerau i Weinidogion Cymru. Roedd y prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn peri pryder penodol i'r Aelodau.

Trafododd yr Aelodau ymateb y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i lythyr y Cadeirydd a phenderfynwyd gwahodd y Gweinidog i ddod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor er mwyn rhoi eglurhad pellach o sawl mater, yn cynnwys y dewis o weithdrefn negyddol neu gadarnhaol o ran y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth a ddirprwyir i Weinidogion. Nodwyd y caiff hyn ei esbonio yn y Memorandwm Pwerau Dirprwyedig a gynhyrchir cyn neu wrth gyflwyno'r Mesur Seneddol gerbron Tŷ'r Arglwyddi. Cyflwynwyd y Mesur Seneddol am y tro cyntaf gerbron Tŷ'r Cyffredin yn Senedd San Steffan. Er nad oes angen i Dŷ'r Cyffredin weld Memorandwm o'r fath, nododd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol iawn i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth er mwyn ei helpu i gyflawni ei waith craffu o dan Reol Sefydlog 15.6 (ii).

Dywedodd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol cael Memorandwm ar gyfer pob Mesur Seneddol a gaiff ei ystyried ganddo. Gofynnodd yr Aelodau i'r Cynghorwyr Cyfreithiol hefyd baratoi nodyn esboniadol pellach yn nodi sut y mae'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru yn cyfateb i'r rheini a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr. Nododd yr Aelodau'r pŵer cydredol yng nghymal 28 y Mesur Atodiadau Ardrethi Busnes, a fyddai'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud diwygiadau canlyniadol i ddarnau eraill o ddeddfwriaeth ar gyfer Cymru yn ogystal â Lloegr. Gofynnodd yr Aelodau am esboniad o'r amgylchiadau lle y gall Gweinidogion y DU ddiwygio deddfwriaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu pan fydd pwerau deddfwriaethol wedi'u dirprwyo i Weinidogion Cymru.

**Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)**

Ystyriodd y Pwyllgor y Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) yn ei gyfarfod ar 3 Chwefror 2009. Penderfynodd yr Aelodau yn y cyfarfod hwnnw, gan fod y Mesur arfaethedig ond yn cynnwys un ddarpariaeth wreiddiol a oedd yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru (adran 4(2) o'r Mesur arfaethedig), nad oedd yn hanfodol i Dr Dai Lloyd, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig, fod yn bresennol i roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor, a hynny ar yr amod ei fod yn esbonio ei safbwynt o ran y dewis o weithdrefn ar gyfer Gorchmynion a wneir o dan adran 4(2). Ysgrifennodd Dr Lloyd at y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r Aelodau nad oedd yn gwrthwynebu barn Llywodraeth y Cynulliad, sef y dylai fod yn fwy priodol i'r pŵer yn adran 4(2) i Weinidogion Cymru ddiwygio'r Atodlen i'r Mesur fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

**Ehangu'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth: Ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig – ystyried y materion allweddol**

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i gyd-drafod casgliadau ac argymhellion yr adroddiad ar yr ymchwiliad.

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**24 Chwefror 2009**